## Teyrnged i Michael Redhouse

## Ionawr 2025

Roedd Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd yn drist o glywed am farwolaeth ei gyn-aelod Bwrdd, Mike Redhouse, ar 12 Ionawr 2025.

Dywedodd Dr Elizabeth Haywood, Cadeirydd y Bwrdd:

“Gyda thristwch mawr rydw i’n rhannu’r newyddion am farwolaeth Mike. Roedd Mike wedi ymddiswyddo o’r Bwrdd yn gynharach y mis hwn oherwydd salwch.”

“Ar ran y Bwrdd, hoffwn dalu teyrnged i gyfraniad aruthrol Mike i waith y Bwrdd ac i’r Senedd yn ystod ei ddau dymor a bron i ddeng mlynedd fel aelod o’r Bwrdd.”

“Roedd Mike yn aelod gweithgar ac uchel ei barch o’r Bwrdd a gwnaeth gyfraniad pwyllog ac arwyddocaol i’n gwaith. Darparodd sicrwydd, natur dawel, parhad a chyngor doeth i mi’n bersonol fel Cadeirydd ac i aelodau ehangach y Bwrdd, yn ystod y cyfnod hwn o ddiwygio cyfansoddiadol yn y Senedd.”

“Roedd yn falch o fod yn aelod o’r Bwrdd ac o gyfrannu at wella’r fframwaith Penderfyniadau ar gyfer Aelodau o’r Senedd. Mae ei arbenigedd a’i arweiniad, yn enwedig ym maes cyflogaeth a phensiynau, wedi paratoi’r ffordd ar gyfer rhai o’r newidiadau mwyaf arwyddocaol yn ymwneud â’r Penderfyniad ers ei gychwyn. Roedd wedi ymrwymo i gyflwyno fframwaith cyflog a graddfeydd diwygiedig ar gyfer Staff Cymorth yr Aelodau i roi mwy o eglurder, cysondeb a thegwch i gyflogau staff yr Aelodau yn y Seithfed Senedd, a groesawyd gan yr Aelodau a’r staff fel ei gilydd.”

“Mae ein cydymdeimlad dwysaf gyda’i deulu a’i ffrindiau ar hyn o bryd.”

## Gwybodaeth ychwanegol

Roedd Mike wedi bod yn aelod o'r Bwrdd Taliadau Annibynnol ers 2015. Ef oedd Pennaeth EMES Consulting, sef cwmni a sefydlodd yn 2002 sy’n helpu llawer o sefydliadau mawr gyda materion taliadau a buddion. Graddiodd mewn mathemateg o’r Brifysgol Agored, ac mae ei yrfa wedi cynnwys cyfnodau fel Partner yn Ernst and Young a Chyfarwyddwr Polisi Cyflogaeth yn Diageo. Roedd Mike yn Ymddiriedolwr i Ymddiriedolaeth APEX, sy’n cefnogi troseddwyr sy’n dychwelyd i’r gwaith, ac yn Gadeirydd Ymddiriedolwyr Hosbis St Luke yn Harrow. Roedd Mike yn Aelod o’r Corff Adolygu Athrawon Ysgol, sy’n edrych ar gyflogau, dyletswyddau proffesiynol ac amser gweithio athrawon ysgol yng Nghymru a Lloegr.